Teitl:	**Gweithiwr Cymdeithasol – Tîm Anabledd**
Lleoliad:	**Gweithio Ystwyth / Swyddfa Llys Einion, Abertyleri**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Swydd Rhif:	**BG03468**
Cyflog:	**Gradd 8 (£36, 298 - £40,478)**
Oriau:	**37**
Contract:	**Parhaol**

Crynodeb Swydd / Hysbyseb Lawn

Daeth cyfle cyffrous ar gael ar gyfer Gweithiwr Cymdeithasol i ymuno â Thîm Anabledd (0-25) Blaenau Gwent.

Mae'r tîm yn unigryw drwy fod yn cefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed gydag anabledd a'u teuluoedd/gofalwyr. Mae'r tîm hefyd yn cynnig nifer fach o bobl ifanc fregus 14-25 oed heb anabledd wedi ei ddiagnosio sydd â chanlyniadau trosglwyddo sydd angen ymyriad gwaith cymdeithasol parhaus a chymorth/gwasanaethau statudol ar ôl 18 oed.

Mae dyletswyddau allweddol y tîm yn cynnwys asesiad a chynllunio gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth a hefyd ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn risg/yn dioddef cam-driniaeth/niwed.

Ethos y tîm yw hyrwyddo a datblygu sgiliau byw annibynnol plant a phobl ifanc a'u cefnogi i fyw mor annibynnol ag sydd modd. Cyflawnir hyn drwy ymarfer o ddull gweithredu gyda ffocws ar gryfderau a chanlyniadau sydd wedi sefydlu'n dda ar draws y tîm.

Yn ogystal â chefnogi plant a phobl ifanc, mae'r tîm hefyd yn cwblhau asesiadau gofalwyr, gan geisio ymchwilio a dynodi gyda rhieni/gofalwyr beth yw eu canlyniadau personol eu hunain a sut, pa gymorth y gallant fod ei angen, er mwyn gweithio at eu cyflawni.

Mae cefnogi pobl ifanc hyd at 25 oed yn unigryw yn nhermau ymarfer gwaith cymdeithasol ac mae'n galluogi gweithwyr yn y tîm i gefnogi pobl ifanc dwy eu taith pontio i fywyd fel oedolion, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r person ifanc, eu rhieni/gofalwyr ac asiantaethau partner i hybu pontio llyfn.

Mae gan weithwyr yn y tîm lwyth cymysg o achosion ar draws ystod oedran 0-25; mae ganddynt ystod eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau ac maent yn awyddus ac yn barod i groesawu a chefnogi gweithwyr newydd sy'n rhannu eu hangerdd a'u hymrwymiad i

gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr i gyflawni y canlyniadau a ddynodwyd ganddynt. Mae Tîm Anabledd (0-25) Blaenau Gwent yn amgylchedd gwaith cryf a chefnogol gydag ethos cydweithio tîm.

Mae pob gweithiwr yn y tîm yn cael arolygiaeth reolaidd, ffurfiol o leiaf unwaith y mis. Mae gan y tîm hefyd arolygiaeth grŵp rheolaidd, o leiaf unwaith y mis, sy'n rhoi cyfle i'r gweithwyr i ystyried achosion mewn gofod diogel a chefnogol. Mae'r tîm hefyd yn defnyddio'r amser hwn i ymchwilio gwahanol ddulliau a damcaniaethau gwaith uniongyrchol i lywio ymyriadau a rhannu arfer da.

Yn nhermau datblygu gyrfa, mae'r swydd yn gyfle ardderchog i ddysgu a datblygu ac ennill profiad yn nhermau gweithio gyda phlant a phobl ifanc/oedolion.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd lenwi cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: **08.06.2023 – 12:00am, canol nos**

Dyddiad Cyfweliadau: **15.06.2023**